Diolch

Cafwyd gwasanaeth Diolchgarwch dan arweiniad Mr Alun John. Bu'r dosbarthiadau yn cyflwyno eu diolch ar lafar ac ar gân. Cafwyd anerchiad pwrpasol gan y prifathro. Gwnaethpwyd casgliad ariannol at alergedd mewn plant. Diolch i bawb am eu cyfraniad.

Ffarwelio

Hapus a thrist oedd cyflwyno ein diolch i Mrs Kay Evans sydd wedi ymddeol o'i swydd ar ôl dros un mlynedd ar ddeg o wasanaeth yng nghegin yr ysgol. Cyflwynodd Mr John siec iddi ar ran yr ysgol fel ein gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth. Dymunwn y gorau iddi hi a'i theulu.

Cwis llyfrau

Bu Mr John Leeding draw yn holi dau dîm ail iaith yng nghystadleuaeth cwis llyfrau. Cafwyd hwyl arni ac edrychwn ymlaen at ganlyniad y gystadleuaeth.

Tân gwyllt

Bu'r disgyblion yn cystadlu yng nghystadleuaeth Tân Gwyllt y Bwrdd Crwn eto eleni. Llongyfarchiadau i Christopher Evans a Cara Spencer am gael gwobr.

Ffair

Aeth y dosbarthiadau Iau i ymweld â'r Hen Goleg un prynhawn i fynychu Ffair Mathemateg 2000. Cafodd pawb hwyl a sbri gan ddysgu llawer hefyd.

Nadolig Llawen

Braf yw derbyn ond brafiach rhoi meddai plantos ysgol Penrhyn-coch wrth gyfrannu at "Operation Christmas Child". Diolch i bawb am eu cyfraniad. Casglwyd stampiau ar gyfer y Bâd Achub a daeth cynrychiolwr i'w derbyn gan Mr John. Da iawn chi blant am gofio am eraill.

Chwaraeon

Llongyfarchiadau i'r tîm pêl-rwyd am ddod yn 3ydd yng nghystadleuaeth pêl-rwyd yr Urdd. Mae'r sgiliau yn datblygu'n dda. Daliwch ati!

Llongyfarchiadau hefyd i'r tîm pêl-droed 6 bob ochr cymysg a ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth "Clwb Pêl-droed Cymru" (rownd Ceredigion). Ymlaen nawr i'r rownd Ranbarthol.